Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
—
Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Julie Morgan AS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 Ionawr 2021

Annwyl Weinidogion

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher i drafod effaith COVID-19 ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl.

Yn anffodus, roedd nifer o faterion nad oeddem yn gallu ymdrin â hwy yn llawn yn yr amser a oedd ar gael, felly mae'r Aelodau wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch ynghylch y materion hyn. A allwch roi'r canlynol i ni:

1. Manylion unrhyw ymrwymiadau ariannol pellach dros y tyor hwy y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud i gefnogi'r sector, yn benodol i sicrhau bod cartrefi gofal yn parhau i fod yn hyfyw;

2. Gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella mynediad at ofal seibiant i ofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig;

3. Eich barn ynglŷn â'r dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chlywed gan randdeiliaid ynghylch pryderon y gallai'r ffaith bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl wedi 'ymdopi' gyda llai o wasanaethau gofal a chymorth ffurfiol yn ystod y pandemig gael ei ddehongli fel arwydd bod angen llai o ymyrraeth arnynt gan wasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol;

4. Manylion unrhyw fesurau pellach rydych chi'n eu hystyried i hwyluso ymweliadau â chartrefi gofal a sut y byddwch yn asesu effaith mesurau fel llogi podiau ar gyfer ymweliadau diogel;

5. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod £250,000 wedi'i ychwanegu at y gronfa cymorth gofalwyr gwerth £1 miliwn. Fodd bynnag, gan fod hon yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, a allech roi eglurhad o ba gymorth fydd ar gael ar ôl mis Mawrth i ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol;


**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

6. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhai gwasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc wedi gallu symud ar-lein yn ystod y pandemig a bod y cerdyn gofalwyr ifanc yn cael ei lansio. A yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach i gefnogi gofalwyr ifanc neu roi seibiant iddynt, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu mynd i'r ysgol ar hyn o bryd;
7. Gwybodaeth am sut mae gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad ar ôl COVID-19 yn ystyried y goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol o ganlyiad i:
    - Oedi o ran cynnal asesiadau ac adolygiadau dementia yn ystod y pandemig; a
    - Anghenion a allai godi o ganlyniad i COVID hir.
8. Y diweddaraf ynglŷn â chyflenwadau cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Yn benodol, unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyflenwad priodol a chynaliadwy o gyfarpar diogelu personol ar gael i ddiwallu anghenion ym maes gofal cymdeithasol o hyn allan.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn **15 Chwefror 2021** i helpu i lywio adroddiad y Pwyllgor ar y mater hwn.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**